# Erthygl 7   Y Cabinet

## 7.1   Rôl

Bydd y Cabinet yn cyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad yw'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, boed hynny yn ôl y gyfraith neu o dan y trefniadau gweithredol hyn. Bydd y Cabinet, wrth ymarfer y swyddogaethau hyn, yn gwneud hynny o fewn y Fframwaith Polisi a Chyllideb bennwyd gan y Cyngor yn unol â'r trefniadau hyn. Hefyd mae gan y Cabinet rôl allweddol o ran cynnig y Fframwaith Polisi a Chyllideb i'r Cyngor a gweithredu a monitro ei Bolisïau a'i Arferion ar gyfer Rheoli'r Drysorfa. Yn ogystal, bydd y Cabinet a'i aelodau yn arwain y broses Cynllunio Cymunedol; yr ymgyrch dros wella gwasanaethau'n barhaus drwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella; arwain y gwaith o baratoi polisïau'r Cyngor a goruchwylio'r gwaith o'u gweithredu wedi hynny; cymryd penderfyniadau o fewn y flwyddyn ar adnoddau a blaenoriaethau yn ddarostyngedig i Reolau Gweithdrefn y Fframwaith Polisi a Chyllideb; a bod yn ffocws ar gyfer ffurfio partneriaethau â chyrff y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol lleol eraill i fynd i'r afael ag anghenion lleol. Bydd y Cabinet hefyd yn ystyried ac yn ymateb i unrhyw argymhellion ac adroddiadau o'r Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Rhanbarthol, Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau eraill, Paneli Ymgynghorol a'r Pwyllgor Safonau.

## 7.2   Rolau a Swyddogaethau'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd(ion) ac Aelodau'r Cabinet

Ceir Proffiliau swyddi a Manylebau Person yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd(ion) ac Aelodau'r Cabinet yng Nghynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig (Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad hwn).

## 7.3   Ffurf a Chyfansoddiad y Cabinet

Gelwir gweithrediaeth y Cyngor yn "Cabinet", ac aelodau'r Cabinet fydd yr Arweinydd, a etholir i'r swydd honno gan y Cyngor, a hyd at deuddeg Cynghorydd arall a benodir gan yr Arweinydd (gan gynnwys hyd at ddau Ddirprwy Arweinydd). Dim ond Cynghorwyr y gellir eu penodi yn aelodau o'r Cabinet.

Hefyd mae gan yr Arweinydd y grym i benodi Arweinydd sy'n rhannu swydd ac Aelodau o'r Cabinet sy'n rhannu swydd, ar yr amod nad yw'r nifer fwyaf sydd ar y Cabinet yn fwy na thair ar ddeg.

Gall yr Arweinydd benodi 'Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth' nad ydynt yn Aelodau o'r Cabinet ond mae hawl ganddynt i fynychu, ac i siarad yn, unrhyw gyfarfod o'r Cabinet neu unrhyw Bwyllgorau'r Cabinet.

(Ni chaniateir aelodau cyfetholedig na dirprwyon nac aelodau yn lle Aelodau'r Cabinet.  Ni cheir penodi Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor yn aelod o'r Cabinet, ac ni all aelodau o'r Cabinet fod yn aelodau o Bwyllgor Craffu.)

Gellir penodi aelod i'r Cabinet dros dro yn lle Aelod o'r Cabinet sydd wedi ymarfer ei hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Bydd Arweinydd y Cyngor yn parhau yn ei swydd tan etholiad nesaf y Cyngor neu tan pa un bynnag o'r canlynol (a) - (d) ddaw gyntaf:

(a) ei fod ef/ei bod hi yn ymddiswyddo; neu
(b) ei fod ef/ei bod hi yn cael ei wahardd rhag bod yn Gynghorydd o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ef/hi ddychwelyd i'w swydd ar ddiwedd cyfnod y gwaharddiad); neu
(c) nad yw ef/hi bellach yn Gynghorydd;
(d) ei fod ef/ei bod hi'n cael ei symud o'i swydd drwy benderfyniad y Cyngor.

Bydd Cynghorwyr y Cabinet yn aros yn eu swyddi tan etholiad nesaf y Cyngor neu tan pa un bynnag o'r canlynol (a) - (c) ddaw gyntaf:

(a) eu bod yn ymddiswyddo neu bod yr Arweinydd yn eu symud o'u swyddi;
(b) eu bod yn cael eu gwahardd rhag bod yn gynghorwyr o dan ran iii o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gallant ddychwelyd i'w swyddi ar ddiwedd cyfnod y gwaharddiad); neu
(c) nad ydynt bellach yn Gynghorwyr.

*CYNHWYSWYD PORTFFOLIOS AELODAU O'R CABINET FEL RHAN O BROFFIL SWYDD YR ARWEINYDD YNG NGHYNLLUN LWFANSAU'R CYNGHORWYR A'R AELODAU CYFETHOLEDIG*

## 7.4 Trafodion y Cabinet

Rhaid i drafodion y Cabinet ddigwydd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn ar gyfer y Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

## 7.5 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau

Bydd awdurdod dirprwyedig gan bob aelod o'r Cabinet i gyflawni'r holl bwerau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor Sir ac sy'n ymwneud â'r portffolio sydd ganddynt, yn ddarostyngedig i:

(a) gyflawni'r pwerau a ddirprwywyd i Swyddogion;
(b) peidio ag ymarfer y swyddogaethau hynny mewn modd a fyddai'n:

  (1) newid polisïau neu strategaethau a gymeradwywyd;
  (2) creu polisïau neu strategaethau newydd;
  (3) gwneud penderfyniadau ynghylch dod â gwasanaeth cyhoeddus i ben neu ei addasu;
  (4) penderfynu ar bwerau neu ddyletswyddau newydd sylweddol yn sgil deddfwriaeth newydd;

(c) y penderfyniadau hynny a wneir yng Nghyfarfodydd Penderfyniadau'r Aelod o'r Cabinet, a gynullir ac a gofnodir yn ffurfiol gan y Prif Weithredwr.

## 7.6 Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013

Cynnal "Gwrandawiadau Cais" llafar yn erbyn achosion lle mae Swyddogion wedi gwrthod ceisiadau.

## 7.7 Aelodau o’r Cabinet yn Gweithredu fel Ymddiriedolwyr

Gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau mae’r Cyngor yn Ymddiriedolwr Corfforaethol arnynt.